**Bwletin o Batagonia 3** (Mawrth 17, 2022) gan Twm Elias

Aderyn sy'n rhaid ei weld ar ymweliad â'r Wladfa yw y Caracara, un o deulu sy'n arbennig i dde America. Roeddwn wedi sylwi ar amryw ohonynt wrth ddilyn y llwybrau drwy'r paith yng nghyffiniau'r Gaiman. Mae dau fath yn yr ardal hon, sef y caracara cyffredin (Caracara plancus), a'r caracara tsimango (Milvago chimango), sydd yn llai, dim ond 2/3 maint yr un 'cyffredin' ac i'w weld yn llawer amlach na'i gefnder mawr.

Hedfan yn bwrpasol, mewn llinell syth dros y paith mae nhw fel arfer ac yn dangos clwt golau yn agos i flaen pob adain ac ochr ucha'r gynffon yn oleuach na chefn yr aderyn. Eu hediad yn debyg i'n bwncath ni yng Nghymru, ond ei adenydd chydig yn gylach gyda blaenau gweddol grwn.

Y tsimango yn debyg o ran ei liw i'n bwncath ni ond ychydig llai o faint. Roeddwn yn lwcus i gael llun o un o'r rhain ar bolyn letrig ger y tŷ – maent yn dwad i dref neu bentre o bryd i'w gilydd i hela adar y to . Mi fydd yn dipyn anoddach cael llun o'i gefnder mawr, sy'n fwy o faint na bwncath, ac yn dipyn tywyllach heblaw am ei gynffon a'i wddw llwydwyn, ag eto efo'r clytiau gwynion yn agos at flaenau'r adenydd.



Y Tsimango, yn Y Gaiman



Y 'caracara cyffredin' , er nad yw mor gyffredin a'r tsimango

**Y Tsimango**

Aderyn yr oeddwn wedi edrych ymlaen i'w weld yn Nyffryn Camwy oedd y caracara, aelod o grŵp o adar ysglyfaethus sy'n rhan o deulu'r hebogiaid *(Falconidae)* ac yn nodweddiadol o dde America. Ni chefais fy siomi, roedd yr aelod lleiaf o'r grŵp, y tsimango *(Milvago chimango)* yn gyffredin iawn yn ardal y Gaiman. Gwelais rai yn hedfan ar draws y paith; yn clwydo ar ben coeden neu bolyn letrig yn y dref, ond yn fwyaf niferus ar y ffermydd ar lawr y dyffryn pan fyddai ffermwr yn dyfrio lleiniau o dir. Golygai hynny gymeryd rhaw i agor bwlch yn y ddyfrffos redai ar hyd ymyl y cae gan adael i'r dŵr lifo dros wyneb y tir, ryw ½ acer neu acer o faint, oedd wedi ei amgau gan gefnau syth o bridd, ryw droedfedd o uchder i ddal y dŵr o fewn y llain. Byddai'r lleiniau tir yn gyfres gyfochrog ar hyd y cae ac yn cael eu dyfrio am ryw ddiwrnod, un ar ôl y llall, i dyfu cnydau megis alfalfa, gwair, neu lysiau ayyb.

Roedd yn drawiadol gweld, wrth i'r dŵr ymledu'n raddol dros wyneb y llain, gan styrbio sboncod gwair a thrychfilod eraill, ugeiniau o tsimangos yn cerdded yn araf o flaen y dŵr yn gwledda. Byddai sawl cornchwiglen *(Vanellus chilensis)* yn eu mysg hefyd ac ambell ibis wynepwyn *(Plegadis chihi)*.





Man arall lle gwelais nifer dda o dsimangoiaid oedd caeau lle cedwid nifer fawr o ddefaid. Yma byddai ambell furgyn, neu gorff dafad. Doedd dim raid i’r ffarmwr drafferthu i waredu’r corff, fel sy’n reidrwydd cyfreithiol yng Nghymru, am y byddai’r tsimangos yn llnau’r esgyrn yn lân, ynghyd a’r fwlturiaid pengoch *(Cathartes aura)* sydd hefyd yn niferus drwy’r ardal. Gwaith taclus a thrylwyr, ac yn cadw’r tir yn lân a iach.

Rhan arall o gynhaliaeth amrywiol y tsimango yw hela a dal adar bychain. Mae’n aelod o deulu’r hebogiaid wedi’r cyfan, a gwelais rai yn pluo a bwyta aderyn ar ben polyn letrig yn y Gaiman. Ond nid yw ei adenydd yn flaenfain fel mwyafrif teulu’r hebogiaidad. Adenydd blaengrwn sydd ganddo, sy’n golygu ei fod yn dal ei brae drwy ystwythder ei ehediad yn hytrach na chyflymder.